Bwrdd Taliadau
Remuneration Board

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mick Antoniw AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

24 Mehefin 2013

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr 1 Mai yn gwahodd Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried canfyddiadau ymchwiliad diweddar eich Pwyllgor i Grwpiau Lobïo a Thrawsbleidiol. Cafodd y mater ei drafod yn ein cyfarfod wythnos diwethaf (21 Mehefin). Rwy'n ymwybodol bod dadl am eich adroddiad wedi'i threfnu yn y Cynulliad yr wythnos hon, ac fe hoffwn rannu ein barn gyda chi cyn y ddadl honno. Mae'r Bwrdd yn cytuno â hanfod safbwynt eich Pwyllgor ar dalu lwfansau ar gyfer cymryd rhan mewn Grwpiau Trawsbleidiol a'ch galwad i gael mwy o eglurder ynghylch y mater.

Mae'n rhaid i'r system lwfansau sydd mewn grym alluogi Aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu dyletswyddau ym mhob maes o'u gwaith. Fel sy'n digwydd ar gyfer yr holl adnoddau sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad drwy ein *Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau*, caiff lwfansau eu talu neu hawliadau eu had-dalu ar gyfer treuliau angenrheidiol y mae Aelodau yn eu hysgwyddo mewn cysylltiad â chyflawni eu dyletswyddau.  Mae rôl Aelod Cynulliad yn cynnwys cymryd rhan mewn busnes ffurfiol yn y Cynulliad, cynrychioli etholwyr ac ymgysylltu â'r gymdeithas sifil.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8598
E-bost/Email: Taliadau@cymru.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

Er nad yw Grwpiau Trawsbleidiol y Cynulliad yn cael eu hystyried yn rhan o fusnes ffurfiol, maent yn ddull o gyfathrebu â grwpiau diddordeb o ystod o sectorau ac mae iddynt rôl werthfawr o ran codi ymwybyddiaeth ynghylch materion. Felly, mae cymryd rhan mewn grwpiau o'r fath, mewn egwyddor, yn weithgaredd Cynulliad priodol. Yn ein barn ni, gellir defnyddio lwfansau a delir o ganlyniad i'n Penderfyniad i hwyluso cymryd rhan mewn gweithgaredd ffurfiol grŵp o'r fath, er enghraifft, hawliad am gostau llety neu gostau teithio i fynd i gyfarfod neu ddigwyddiad Grŵp Trawsbleidiol.

Caiff Grwpiau Trawsbleidiol, gan amlaf, eu trefnu a'u noddi gan sefydliadau allanol. Os caiff y rheolau y mae eich Pwyllgor wedi'u llunio eu mabwysiadu, byddant yn cynyddu tryloywder. Rhaid i Aelodau'r Cynulliad fod yn bersonol gyfrifol am yr holl wariant a ysgwyddir a rhaid iddynt arddangos synnwyr cyffredin wrth asesu pa mor berthnasol mae eu holl weithgareddau i'w dyletswyddau fel Aelodau'r Cynulliad.  Mae ein *Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau* hefyd yn disgwyl i Aelodau ymrwymo i egwyddorion didwylledd a thryloywder. Caiff pob hawliad ei gyhoeddi ar y System Cyhoeddi Lwfansau, sy'n hysbysu'r cyhoedd ynghylch gwariant yr Aelodau.

Byddwn yn sicrhau bod eglurder ynghylch y mater hwn, a byddwn yn cyhoeddi canllawiau os bydd angen.

Diolch am ddwyn y mater hwn i'n sylw. Gobeithiaf y bydd ein sylwadau yn cyfrannu at y drafodaeth.

Yn gywir



**Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid**
**Cadeirydd**